OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 1243

# Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 5 a Darpariaethau Trosiannol a Darpariaethau Arbed) 2021

**Darpariaeth arbed**

**4.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 9 i 12 ac erthyglau 14 i 20, er bod Pennod 1 o Ran 4 o Ddeddf 1996([1]) wedi ei datgymhwyso gan adran 96 o'r Ddeddf a pharagraff 4(9) o'r Atodlen iddi mewn perthynas â phlentyn sydd ag anghenion addysgol arbennig a nodwyd—

(a) mae'r hen gyfraith yn parhau i gael effaith mewn perthynas â'r plentyn hwnnw; a

(b) nid yw'r gyfraith newydd yn cael effaith mewn perthynas â'r plentyn hwnnw.

(**1**) *Gweler* erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn a gychwynnodd y darpariaethau hynny.